Cyngor Abertawe
Swansea Council

# AMCANESTYNIADAU IS-GENEDLAETHOL O AELWYDYDD (sail-2018, diwygiedig): DINAS A SIR ABERTAWE

## Cyflwyniad

Ar 4 Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) yr amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf (diwygiedig*) sy'n seiliedig ar dueddiadau ar gyfer y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd rhwng 2018 a 2043. Mae'r rhain yn disodli'r amcanestyniadau aelwydydd cynharach, gan gynnwys y set flaenorol a oedd yn seiliedig ar 2014. Mae'n debygol mai'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 fydd y rhai olaf a gyhoeddir cyn canlyniadau Cyfrifiad 2021.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn galluogi sefydliadau cyhoeddus a phreifat i allu amcangyfrif niferoedd aelwydydd yn y dyfodol a'r galw cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig, er enghraifft addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a chyfleustodau, ar lefel ardal leol.

Nid rhagolygon o niferoedd anheddau neu dai yw amcanestyniadau aelwydydd. Gallant roi syniad yn unig o'r galw am dai yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau diweddar a chan fod y broses o newid demograffeg yn gronnol, dônt yn fwyfwy amhendant wrth iddynt gael eu cario ymlaen. Nid yw'r amcanestyniadau'n rhagolygon sy'n seiliedig ar bolisi o'r hyn a allai ddigwydd ac nid ydynt yn ystyried effeithiau polisïau lleol neu lywodraeth ganolog, na ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach ar newid poblogaeth neu ffurfiant aelwydydd yn y dyfodol.

Mae'r amcanestyniadau hyn wedi'i seilio ar yr amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf (sail-2018), a rhagdybiaethau am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd sy'n seiliedig ar dueddiadau a nodwyd trwy ddefnyddio data'r Cyfrifiad. Mae'r nodyn hwn yn darparu trosolwg cryno o amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf LlC ac yn canolbwyntio ar y ffigurau ar gyfer Abertawe.

****Sylwer**: Mae'r amcanestyniadau aelwydydd hynny'n diwygio'r rheini a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 31 Mawrth 2020, yn sgîl darganfod gwall yn yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol a achoswyd gan brosesu llifoedd traws-ffiniol rhwng Cymru a Lloegr yn anghywir yn yr amcanestyniadau cenedlaethol.*

## Methodoleg

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrifon o niferoedd aelwydydd a'r bobl sy'n byw ynddynt yn y dyfodol. Maent yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar dueddiadau (sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo yn y dyfodol) ac amrywiaeth o ragdybiaethau am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd.

Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001 a 2011, cyfrifir cyfraddau aelodau aelwydydd - tebygolrwydd bod person o oedran a rhyw benodol ym mhob aelwyd - ar gyfer 12 math o aelwyd, mewn cyfuniadau niferoedd oedolion a phlant amrywiol. Caiff y cyfraddau aelodaeth hyn eu cymhwyso i'r boblogaeth amcanestynedig (o fewn aelwydydd preifat, a amcangyfrifir trwy ddefnyddio data Cyfrifiad) er mwyn rhagweld niferoedd yr aelwydydd a'r mathau o aelwydydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru o 2018 (y flwyddyn sylfaenol) hyd at 2043.

Mae'r nodyn hwn yn bennaf yn ymwneud â’r prif amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2018 a luniwyd gan LIC. Fodd bynnag, cyhoeddwyd hefyd amcanestyniadau amrywiol (sy'n seiliedig ar ragdybiaethau newid poblogaeth amgen), ac ystyrir y rhain mewn adran wahanol o'r nodyn hwn.

## Newid amcanestynedig yng Nghymru

Rhagwelir y bydd cyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru'n cynyddu o 1.359 miliwn yn 2018 i 1.419 miliwn erbyn 2028 ac i 1.486 miliwn yn 2043. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o 60,100 o aelwydydd (+4.4%) rhwng 2018 a 2028, sy'n gyfwerth â thwf blynyddol cyfartalog o oddeutu 6,000 o aelwydydd (+0.4% y flwyddyn).

Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig 2018 yn awgrymu mai aelwydydd person sengl fydd y math mwyaf cyffredin o aelwyd yng Nghymru o hyd ers 2018, a bydd hyn yn cynyddu dros amser; bydd cynnydd o 40,900 (+9.4%) rhwng 2018 a 2028, a fydd yn cyfrif am 33.5% o'r holl aelwydydd.  Aelwydydd ‘dau berson (heb blant)’ yw'r ail fath mwyaf cyffredin o aelwyd o hyd, a bydd yn cyfrif am 31.0% o'r cyfanswm yn 2028. Rhagwelir y bydd twf sylweddol rhwng 2018 a 2028 ar gyfer aelwydydd ‘dau berson (1 oedolyn, 1 plentyn)’, â chynnydd o 7,000 neu 12.9%. Rhagwelir y bydd aelwydydd ag un rhiant yn cynyddu o 92,200 yn 2018 i 99,200 yn 2028, sef cynnydd o 7,000 neu 7.6%. Disgwylir y bydd niferoedd cyffredinol aelwydydd yng Nghymru â phedwar person neu fwy heb blant yn cynyddu 7.6% o 44,400 yn 2018 i 47,800 yn 2028.


Nid yw lefel y newid yng nghyfanswm yr aelwydydd a ragwelir wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws Cymru. Rhwng 2018 a 2028, rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer yr aelwydydd mewn 21 o’r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd canran y ffigurau newid canrannol yn amrywio o -1.6% yng Ngheredigion i +8.6% ym Mro Morgannwg. Mae manylion pellach ar gyfer pob awdurdod lleol ar gyfer y deng mlynedd gyntaf a'r cyfnod 25 mlynedd llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

## Twf rhagamcanol yn aelwydydd Abertawe

Yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018, rhagwelir y bydd cyfanswm nifer yr aelwydydd yn Abertawe'n cynyddu o oddeutu 108,900 yn 2018 i 115,000 yn 2028 (+6,100 neu +5.6% dros 10 mlynedd) ac i 122,800 erbyn 2048 (+14,000 neu +12.8% dros 25 mlynedd).

O ganlyniad, bydd gan Abertawe'r ail lefel uchaf o dwf (niferol) yng Nghymru dros ddeng mlynedd gyntaf yr amcanestyniad, y tu ôl i Gaerdydd yn unig (+8,700). Fel canran, mae gan Abertawe'r chweched ganran uchaf o ran amcanestyniadau twf rhwng 2018 a 2028, y tu ôl i Fro Morgannwg, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

Gweler yr amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer Abertawe, o ran cyfanswm yr aelwydydd a’r math o aelwydydd (wedi'u grwpio), lle caiff gwerthoedd 2018 eu mynegeio i 100 yn Ffigwr 1 isod. Mae'n dangos cynnydd cyson yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd (llinell ddu) a chynnydd llawer mwy serth ar gyfer aelwydydd dau berson (un oedolyn) ac oedolyn sengl, a'r gostyngiad mwyaf sydyn ar gyfer aelwydydd â thri pherson.




Ffynhonnell: Amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar 2018.

Wrth ganolbwyntio ar ddeng mlynedd gyntaf yr amcanestyniad (2018-2028), dyma'r tueddiadau allweddol ar gyfer Abertawe yn ôl math o aelwyd:


- Rhagwelir mai'r twf mwyaf sylweddol fydd ar gyfer aelwydydd person sengl, sef oddeutu 4,500 (+11.7%), o 38,000 yn 2018 i 42,500 yn 2028.
- Rhagwelir y bydd aelwydydd un rhiant yn cynyddu 10.2% (+800) o 7,800 yn 2018 i 8,500 yn 2028, a bydd y twf yn y categori hwn oherwydd aelwydydd ag 'un oedolyn, un plentyn' (oddeutu +800 neu 17.1%)
- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd 'dau oedolyn, heb blant' yn cynyddu 1,200 (+3.6%) o 32,000 yn 2018 i 33,200 yn 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd â 4 oedolyn neu fwy a dim plant yn cynyddu o oddeutu 4,500 i 4,800 (+8.0%) dros y 10 mlynedd - yn rhannol oherwydd cynnydd diweddar mewn aelwydydd a rennir gan oedolion, gan gynnwys myfyrwyr.
- Fodd bynnag, rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd â dau oedolyn (neu fwy) ac (unrhyw) blant yn gostwng 200 (-1.1%) dros y cyfnod hwn.
- Yn yr amcanestyniad hwn, disgwylir y bydd poblogaeth aelwydydd preifat Abertawe (h.y. ac eithrio preswylwyr sefydliadau cymunedol) yn cynyddu oddeutu 7,700 (+3.2%) o 241,700 yn 2018 i 249,400 yn 2028.
- Bydd y newidiadau uchod (ac eraill) yn cyfuno i arwain at ostyngiad amcanol mewn maint aelwydydd cyfartalog yn Abertawe o 2.22 person yn 2018 (Cymru 2.27) i 2.17 yn 2018 (Cymru 2.23).
- Darperir manylion llawn cyfanswm nifer amcanol aelwydydd yn Abertawe (2018-2043) ac ar gyfer y 12 math o aelwyd a nodwyd yn Atodiad 2.

## Cymharu ag amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2014

Bydd amcanestyniadau aelwydydd newydd LIC ar gyfer Abertawe'n dechrau ar lefel sylfaenol debyg (ar gyfer 2018), sef ychydig dros 200 uned un uwch na'r rheini a gynhyrchwyd yn flaenorol. Dros y cyfnod cyntaf o ddeng mlynedd (2018-28), y twf rhagweledig ar gyfer amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yw 5.6%, sy'n is na'r ffigur

7.1% yn yr amcanestyniadau blaenorol (sail-2014). Yn y 25 mlynedd lawn ers eu blwyddyn sylfaenol, mae cyfradd y cynnydd yn yr amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf ar gyfer Abertawe, sef 12.8%, yn is na set 2014, a oedd yn rhagweld twf o 16.7% dros 25 mlynedd. Fel a ddangosir yn Ffigur 2 isod ac yn y tabl data cysylltiedig, mae'r bwlch rhwng y ffigurau'n ehangu ychydig drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

**Ffigur 2: Cymharu amcanestyniadau aelwydydd LlC sy'n seiliedig ar 2014 a 2018 (diwygiedig) ar gyfer Abertawe**




| Blwy-ddyn | Sail-2014 | Sail-2018 | Gwahaniaeth (nifer / %) |
|---|---|---|---|
| 2018 | 108,600 | 108,900 | +200 (+0.2%) |
| 2023 | 112,600 | 111,900 | -700 (-0.6%) |
| 2028 | 116,300 | 115,000 | -1,300 (-1.2%) |
| 2033 | 119,600 | 117,800 | -1,800 (-1.5%) |
| 2038 | 122,700 | 120,400 | -2,300 (-1.9%) |

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Is-genedlaethol o Aelwydydd ar gyfer Cymru (wedi'u talgrynnu), Llywodraeth Cymru:
sail-2014 (Mawrth 2017),
sail-2018 (diwygiwyd Awst 2020).

Mae'r newid rhwng ffigurau poblogaeth ac amcanestyniad aelwydydd 2014 a 2018 yn ymwneud yn bennaf â newidiadau i'r boblogaeth blwyddyn sylfaenol ac elfennau data newid cysylltiedig, felly maent yn adlewyrchu'r newid mewn tueddiadau demograffig a welwyd yn ystod y cyfnod hwn. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer set 2018. Fodd bynnag, bydd newid a wneir i'r fethodoleg amcanestyniadau aelwydydd, sef selio'r tybiaethau ar gyfer mudo mewnol (DU) ar gyfraddau mudo yn hytrach na rhifau sefydlog, yn cael effaith anuniongyrchol ar yr amcanestyniadau aelwydydd.

## Amcanestyniadau Aelwydydd Amrywiol

Gellir llunio amcanestyniadau amrywiol trwy amrywio'r rhagdybiaethau a ddefnyddir. I ddangos ansicrwydd cynhenid llunio amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, roedd cyhoeddiad LlC hefyd yn cynnwys amcanestyniadau aelwydydd amrywiol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Cynhyrchwyd dau amrywiolyn i ddechrau ynghyd â'r prif amcanestyniadau aelwydydd yn wreiddiol:

- Amrywiolyn is sy'n seiliedig ar amrywiolyn amcanestyniad poblogaeth is - gyda rhagdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo isel
- Amrywiolyn uwch sy'n seiliedig ar amrywiolyn amcanestyniad poblogaeth uwch - gyda rhagdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel.

Dylid nodi na fwriedir i'r amrywiolion hyn ddarparu amrediadau uchaf ac isaf ar gyfer yr amcanestyniadau, gan eu bod yn ddarluniadol yn unig; maent yn dangos sut gall yr amrywiaethau posib o ran rhagdybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd a bod yr effaith hon fel arfer yn cynyddu yn y dyfodol.

Dangosir effaith yr amcanestyniadau amrywiol hyn ar gyfer y cyfnod o 2018 (y flwyddyn sylfaen) i 2028 (10 mlynedd) a 2043 (25 mlynedd) yn Nhabl 1 isod. Dros y cyfnod tymor byr (10 mlynedd), mae lefelau twf yr aelwydydd amcanestynedig yn amrywio o 5,000 i 6,900 o aelwydydd - sy'n cymharu â'r prif ffigur amcanestyniad o 6,100. Dros y 25 mlynedd, gall y lefelau twf amcanestynedig amrywio o 8,600 i 18,100 o aelwydydd (prif: +14,000).

**Tabl 1: Amcanestyniadau Aelwydydd Amrywiol yn seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru 2028-2043, Abertawe**

| Amrywiolyn: Abertawe | Newid amcanestynedig hyd at 2028 | Newid amcanestynedig hyd at 2043 |
|---|---|---|
| Amrywiolyn Isaf | +5,000 (+4.6%) to 113,800 | +8,600 (+7.9%) to 117,500 |
| *Prif amcanestyniad* | *+6,100 (+5.6%) to 115,000* | *+14,000 (+12.8%) to 122,800* |
| Amrywiolyn Uwch | +6,900 (+6.4%) to 115,800 | +18,100 (+16.6%) to 126,900 |

Ffynhonnell: Amcanestyniadau Is-genedlaethol o Aelwydydd yn seiliedig ar 2018 - Prif ac Amrywiol, Llywodraeth Cymru (diwygiwyd Awst 2020).

## Casgliad

Mae amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018 (diwygiwyd Awst 2020) yn dangos parhad twf yn Abertawe, i fyny 6,100 (+5.6%) dros y cyfnod cyntaf o ddeng mlynedd; fodd bynnag, mae'r gyfradd twf ychydig yn is na'r gyfradd a ragwelwyd yn flaenorol.

*Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am yr amcanestyniadau aelwydydd, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch newid mewn poblogaeth a newid demograffeg yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil ac SGD**

Uned Cyflwyno Strategol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN
E-bost: ymchwil@abertawe.gov.uk
Gwefan: www.abertawe.gov.uk/poblogaeth

## Atodiad 1:

### **AMCANESTYNIADAU AELWYDYDD ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU YN SEILIEDIG AR 2018** (PRIF AMCANESTYNIAD)

Pro Amcanestyniadau aelwydydd a newid, mewn miloedd

| ***Local Authority*** | **2018** | **2023** | **2028** | **newid 2018-28 (%)** | **2033** | **2043** | **newid 2018-43 (%)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 31.2 | 31.4 | 31.6 | +0.5 (+1.4%) | 31.8 | 32.0 | +0.9 (+2.8%) |
| Gwynedd | 54.3 | 55.5 | 56.7 | +2.4 (+4.3%) | 57.8 | 59.7 | +5.3 (+9.8%) |
| Conwy | 52.8 | 53.8 | 54.8 | +2.1 (+3.9%) | 55.7 | 57.1 | +4.3 (+8.2%) |
| Sir Ddinbych | 41.6 | 42.3 | 42.8 | +1.1 (+2.8%) | 43.2 | 43.8 | +2.2 (+5.2%) |
| Sir y Fflint | 66.2 | 67.8 | 68.9 | +2.7 (+4.0%) | 69.6 | 70.9 | +4.6 (+7.0%) |
| Wrecsam | 58.7 | 59.1 | 59.3 | +0.5 (+0.9%) | 59.4 | 59.6 | +0.8 (+1.4%) |
| Powys | 59.7 | 60.5 | 61.1 | +1.5 (+2.4%) | 61.5 | 62.3 | +2.7 (+4.4%) |
| Ceredigion | 31.2 | 30.7 | 30.7 | -0.5 (-1.6%) | 30.7 | 30.3 | -0.9 (-2.8%) |
| Sir Benfro | 55.6 | 57.2 | 58.4 | +2.8 (+5.0%) | 59.3 | 60.8 | +5.2 (+9.3%) |
| Sir Gâr | 81.5 | 83.1 | 84.5 | +3.0 (+3.7%) | 85.7 | 87.8 | +6.3 (+7.7%) |
| **Abertawe** | **108.9** | **111.9** | **115.0** | **+6.1 (+5.6%)** | **117.8** | **122.8** | **+14.0 (+12.8%)** |
| Castell-nedd Port Talbot | 62.1 | 63.1 | 64.2 | +2.2 (+3.5%) | 65.1 | 66.8 | +4.7 (+7.6%) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 61.8 | 63.9 | 65.7 | +3.9 (+6.3%) | 67.2 | 70.0 | +8.1 (+13.1%) |
| Bro Morgannwg | 57.2 | 59.9 | 62.2 | +4.9 (+8.6%) | 64.1 | 67.2 | +9.9 (+17.4%) |
| Caerdydd | 153.2 | 157.3 | 161.9 | +8.7 (+5.7%) | 166.3 | 172.7 | +19.4 (+12.7%) |
| Rhondda Cynon Taf | 104.9 | 108.0 | 110.8 | +6.0 (+5.7%) | 113.4 | 118.4 | +13.6 (+12.9%) |
| Merthyr Tudful | 24.9 | 25.2 | 25.5 | +0.6 (+2.6%) | 25.7 | 26.2 | +1.3 (+5.2%) |
| Caerffili | 76.7 | 78.0 | 78.8 | +2.1 (+2.8%) | 79.4 | 80.8 | +4.2 (+5.5%) |
| Blaenau Gwent | 31.1 | 31.3 | 31.5 | +0.4 (+1.3%) | 31.6 | 32.2 | +1.1 (+3.6%) |
| Torfaen | 40.0 | 40.8 | 41.5 | +1.6 (+3.9%) | 42.2 | 43.3 | +3.4 (+8.4%) |
| Sir Fynwy | 40.1 | 41.2 | 42.1 | +2.0 (+5.0%) | 42.8 | 43.9 | +3.7 (+9.3%) |
| Casnewydd | 65.2 | 68.1 | 70.8 | +5.6 (+8.6%) | 73.1 | 77.8 | +12.6 (+19.4%) |
| CYMRU | 1,358.8 | 1,390.1 | 1,418.8 | **+60.1 (+4.4%)** | 1,443.5 | 1,486.2 | **+127.5 (+9.4%)** |

*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Is-genedlaethol o Aelwydydd ar gyfer Cymru (sail-2018, diwygiedig) Llywodraeth Cymru, 4 Awst 2020.*

Gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-o-aelwydydd-sail-2018

## Atodiad 2:

## AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH YN ÔL MATH O AELWYD YN SEILIEDIG AR 2018

Ffigurau'r aelwydydd a phoblogaeth mewn miloedd

| Blwyddyn | Pob aelwyd | PAP | *MCA* | Math o aelwyd: 1P | 2P (0 P) | 2P (1 O, 1 P) | 3P (0 P) | 3P (2 O, 1 P) | 3P (1 O, 2 P) | 4P (0 P) | 4P (2+O, 1+P) | 4P (1 O, 3 P) | 5P+ (0 P) | 5P+ (2+O, 1+P) | 5P+ (1 O, 4+P) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2018** | **108.9** | 241.7 | *2.22* | 38.0 | 32.0 | 4.7 | 6.7 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 9.0 | 0.7 | 1.7 | 4.5 | 0.2 |
| **2019** | **109.5** | 242.4 | *2.21* | 38.5 | 32.1 | 4.8 | 6.7 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 9.0 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **2020** | **110.1** | 243.1 | *2.21* | 38.9 | 32.2 | 4.9 | 6.6 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 9.0 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **2021** | **110.7** | 243.8 | *2.20* | 39.4 | 32.3 | 5.0 | 6.6 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 9.0 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **2022** | **111.3** | 244.4 | *2.20* | 39.9 | 32.4 | 5.1 | 6.5 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 9.0 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **2023** | **111.9** | 245.1 | *2.19* | 40.4 | 32.5 | 5.1 | 6.5 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **2024** | **112.5** | 245.9 | *2.19* | 40.8 | 32.6 | 5.2 | 6.4 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.8 | 4.4 | 0.2 |
| **2025** | **113.1** | 246.7 | *2.18* | 41.2 | 32.8 | 5.3 | 6.4 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.8 | 4.4 | 0.2 |
| **2026** | **113.7** | 247.6 | *2.18* | 41.6 | 32.9 | 5.4 | 6.3 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.9 | 4.3 | 0.2 |
| **2027** | **114.3** | 248.5 | *2.17* | 42.1 | 33.0 | 5.5 | 6.3 | 6.4 | 2.1 | 2.9 | 8.9 | 0.7 | 1.9 | 4.3 | 0.2 |
| **2028** | **115.0** | 249.4 | *2.17* | 42.5 | 33.2 | 5.5 | 6.3 | 6.4 | 2.1 | 2.9 | 8.9 | 0.7 | 2.0 | 4.3 | 0.2 |
| **2029** | **115.5** | 250.2 | *2.17* | 42.9 | 33.3 | 5.6 | 6.2 | 6.4 | 2.1 | 2.9 | 8.9 | 0.7 | 2.0 | 4.3 | 0.2 |
| **2030** | **116.1** | 251.1 | *2.16* | 43.3 | 33.4 | 5.7 | 6.2 | 6.4 | 2.1 | 2.9 | 8.9 | 0.7 | 2.1 | 4.3 | 0.2 |
| **2031** | **116.7** | 251.9 | *2.16* | 43.7 | 33.5 | 5.7 | 6.2 | 6.4 | 2.1 | 2.9 | 8.9 | 0.7 | 2.1 | 4.3 | 0.2 |
| **2032** | **117.3** | 252.7 | *2.15* | 44.1 | 33.6 | 5.8 | 6.1 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.9 | 0.7 | 2.2 | 4.2 | 0.2 |
| **2033** | **117.8** | 253.4 | *2.15* | 44.5 | 33.6 | 5.9 | 6.1 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.9 | 0.7 | 2.2 | 4.2 | 0.2 |
| **2034** | **118.3** | 254.0 | *2.15* | 44.9 | 33.7 | 6.0 | 6.1 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.9 | 0.7 | 2.2 | 4.2 | 0.2 |
| **2035** | **118.9** | 254.7 | *2.14* | 45.3 | 33.8 | 6.0 | 6.1 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.9 | 0.7 | 2.2 | 4.2 | 0.2 |
| **2036** | **119.4** | 255.3 | *2.14* | 45.7 | 33.9 | 6.1 | 6.0 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2037** | **119.9** | 255.9 | *2.13* | 46.1 | 33.9 | 6.2 | 6.0 | 6.4 | 2.1 | 3.0 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2038** | **120.4** | 256.5 | *2.13* | 46.5 | 33.9 | 6.3 | 5.9 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2039** | **120.9** | 257.0 | *2.13* | 46.9 | 34.0 | 6.4 | 5.9 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2040** | **121.4** | 257.6 | *2.12* | 47.3 | 34.0 | 6.5 | 5.9 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2041** | **121.9** | 258.2 | *2.12* | 47.7 | 34.0 | 6.6 | 5.9 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2042** | **122.3** | 258.7 | *2.11* | 48.1 | 34.0 | 6.6 | 5.8 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **2043** | **122.8** | 259.3 | *2.11* | 48.5 | 34.0 | 6.7 | 5.8 | 6.4 | 2.1 | 3.1 | 8.8 | 0.7 | 2.3 | 4.2 | 0.2 |
| **Newid amcanestynedig: 2018 i 2028** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+6.1** | +7.7 | *-0.05* | +4.5 | +1.2 | +0.8 | -0.5 | -0.0 | +0.0 | +0.1 | -0.1 | +0.0 | +0.3 | -0.1 | -0.0 |
| **%** | **+5.6** | +3.2 | *-2.3* | +11.7 | +3.6 | +17.1 | -6.8 | -0.2 | +0.2 | +2.4 | -0.8 | +0.2 | +17.3 | -3.1 | -11.1 |
| **Newid amcanestynedig: 2018 i 2043** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+14.0** | +17.7 | *-0.11* | +10.5 | +2.0 | +2.0 | -0.9 | -0.0 | -0.0 | +0.3 | -0.2 | +0.0 | +0.6 | -0.3 | -0.0 |
| **%** | **+12.8** | +7.3 | *-4.9* | +27.6 | +6.4 | +42.7 | -13.7 | -0.7 | -0.4 | +9.8 | -1.8 | +0.8 | +37.1 | -6.8 | -22.7 |

*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Is-genedlaethol o Aelwydydd ar gyfer Cymru (sail-2018, diwygiedig) Llywodraeth Cymru, 4 Awst 2020.*

*Allwedd:*
**H** = Cyfanswm yr aelwydydd **PAP** = Poblogaeth Aelwydydd Preifat; **MCA** = Maint Cyfartalog yr Aelwydydd

*Mathau o aelwydydd:*
**1P** = aelwyd un person
**2P** = aelwyd dau berson
**3P** = aelwyd 3 pherson
**4P** = aelwyd 4 person
**5P+** aelwyd 5 person neu fwy.

O = nifer yr oedolion; P = nifer y plant.